Julie James AC
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

14 Tachwedd 2018

Annwyl Julie

**Wrth eich gwaith: rhianta a chyflogaeth yng Nghymru**

Roeddem yn falch o ymateb y Llywodraeth yn eich ymateb ysgrifenedig ac yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn. Fodd bynnag, codais i a'r Aelodau nifer o faterion yr hoffem gael eglurhad arnynt yn ystod y ddadl.

Byddwn yn ddiolchgar am:

- ragor o wybodaeth ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn annog sefydliadau'r sector cyhoeddus i ddilyn ei esiampl o ddarparu dewisiadau gweithio hyblyg;
- eglurhad ynghylch pryd y bydd y canllawiau recriwtio ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion yn cael eu hadolygu a'u diweddaru, ar ôl derbyn argymhellion 5 a 6;
- Llywodraeth Cymru i sicrhau bod busnesau sy'n manteisio ar ei chymorth ariannol yn cynnig trefniadau gweithio hyblyg, trwy wneud hyn yn ofyniad allweddol yn y contract economaidd;
- ymrwymiad i ddarparu ymateb pellach, manylach i argymhellion 9, 12, 28 a 34, ar ôl cael adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg;
- adolygiad ar unwaith o sut y mae Busnes Cymru yn darparu cyngor a chymorth. Credwn fod ein hadroddiad wedi cyflwyno'r achos i'r adolygiad ddigwydd ar frys.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

- ymateb pellach i argymhelliad 28, a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu'r ddarpariaeth o gyngor arbenigol i weithwyr, gan gynnwys sut y mae Busnes Cymru yn rhoi cyngor i weithwyr;
- eglurhad ynghylch pryd y bydd yr adolygiad o ddyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus wedi ei gwblhau, ac ymrwymiad i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a'r penderfyniadau erbyn diwedd 2018;
- eglurhad pellach, manylach o'r rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad i wneud y cynnig gofal plant, a chynlluniau gofal plant eraill, ar gael i blant rhwng dwy a phedair oed yn unig;
- enghreifftiau o benodiadau rhannu swyddi ar gyfer penodiadau cyhoeddus, fel yr amlinellir yn argymhelliad 2;
- rhagor o fanylion am eich ymrwymiad y bydd yr adolygiad o dâl ac amodau athrawon yn ystyried yn llawn hyblygrwydd i gefnogi'r patrymau gwaith sy'n ofynnol, a amlinellir yn yr ymateb i argymhelliad 6;

Yn dilyn y ddadl, ar 4 Hydref cynhaliodd y Cadeirydd drafodaeth Facebook LIVE gyda dau o dystion y Pwyllgor, Sarah Rees a'r blogiwr Anna Whitehouse (a elwir yn "Mother Pukka"), i drafod canlyniadau'r adroddiad. Yn ystod y drafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol. Byddwn yn ddiolchgar felly pe gallech ddarparu'r canlynol:

- yr amserlenni ar gyfer gweithredu'r gofyniad i sefydliadau gyhoeddi cyfraddau cadw staff ar famolaeth, ochr yn ochr â'r adolygiad o Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus;
- rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth a ddarperir gan y prosiect PaCE i rieni sy'n ceisio cael mynediad ato. Rhoddodd Sarah Rees gyfrif o'i hymdrechion ei hun i gysylltu â'r prosiect heb gael ymateb, yn ogystal â nifer o hanesion am bobl eraill sydd wedi cael yr un anhawster;
- unrhyw wybodaeth bellach ynghylch a fydd y Cynnig Gofal Plant ar gael i rieni nad ydynt yn gweithio, a phryd;

Deallaf fod rhai o'r materion hyn y tu allan i'ch portffolio, ond byddwn yn ddiolchgar pe gellid darparu ymateb cydlynol gyda'r Gweinidogion perthnasol.

Yn gywir

John Griffiths AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.